Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Rhaglen Gyfalaf y Loteri

# Nodiadau Cymorth ar gyfer Gwneud Cais

Tachwedd 2021

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n darparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, sain, Hawdd ei Ddeall ac Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn hefyd yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw Cymraeg neu Saesneg os gofynnir amdani.

Os oes gennych unrhyw anghenion o ran mynediad ac rydych yn ystyried cyflwyno cais, gallwn helpu i sicrhau y cewch gefnogaeth yn ystod y broses ymgeisio. Cysylltwch â ni ar cyfalaf@celf.cymru i drafod sut y gallwn helpu.

Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru bolisi cyfle cyfartal ar waith.

### Beth i'w wneud os na allwch chi dderbyn arian o'r Loteri Genedlaethol

Os nad ydych chi'n gallu derbyn arian Loteri Genedlaethol am unrhyw resymau, dylech chi lanlwytho llythyr gyda'ch cais yn esbonio pam mae hyn yn wir. Os yw eich cais yn llwyddiannus, byddwn ni'n ceisio ariannu eich prosiect o arian o ffynonellau eraill.

# Cynnwys


Cyflwyniad 4

Y broses ymgeisio 4

Cyn i chi ddechrau 5

Pa gwestiynau y bydd angen i mi eu hateb? 5

1. Gwiriadau Cyn Ymgeisio 5
2. Cysylltu â Chi 5
3. Manylion Eich Prosiect 5
4. Ffocws y Prosiect 6
5. Canllawiau ar Gynnig Prosiect 6
6. Diwallu angen a glustnodwyd 7
7. Cyflawni prosiect o safon uchel 8
8. O fudd i'r cyhoedd 11
9. Sicrhau bod eich prosiect yn hollol hygyrch 13
10. Dangos eich cryfderau a'ch cynaliadwyedd 13
11. Cynllunio a rheoli prosiect llwyddiannus 15
12. Ariannu prosiect llwyddiannus 16
13. Rheoli Risg 21
14. Manylion yr Adeilad 22
15. Mathau o Gelfyddyd 23
16. Targedau 23
17. Iaith 23
18. Lleoliad 23
19. Cydraddoldeb 23
20. Adolygu fy nghais 23
21. Adolygiad o'r gyllideb 23
22. Lanlwythiadau 23
23. Datganiad 27

Beth i'w wneud os na allwch dderbyn arian gan y Loteri Genedlaethol 28

Ymwadiad 28

Beth os oes gennyf gwestiwn? 28

Ffyrdd eraill o gysylltu â ni 29

## Cyflwyniad

Croeso i'n Nodiadau Cymorth ar gyfer Rhaglen Gyfalaf y Loteri.

Yma fe gewch yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i baratoi eich cais am gyllid cyfalaf. Dylid darllen ein Canllaw Cyffredinol ar Raglen Gyfalaf Cyngor Celfyddydau Cymru a'n Strategaeth Gyfalaf 2012-2017 ochr yn ochr â'r ddogfen hon. Dyma lle mae'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch am ein blaenoriaethau cyffredinol, cymhwysedd, y costau priodol a chymorth ychwanegol i'ch helpu chi i gyflwyno'r cais gorau posibl.

O bryd i'w gilydd efallai y bydd angen i ni wneud newidiadau i Raglen Gyfalaf y Loteri. Gallai hyn gynnwys meysydd y gallem eu hariannu ar adeg benodol neu'r rhai sy'n flaenoriaeth benodol. Bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan felly dylech wirio bob amser cyn dechrau cais.

## Y broses ymgeisio

1. Bydd angen i chi ddefnyddio ein 'porth' ar-lein i wneud cais. Os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes, bydd angen i chi gofrestru i gael mynediad i'r porth. Gallwch ddarganfod sut i wneud hyn yma

2. Llenwch a chyflwynwch ffurflen gais ar-lein ar ein porth. Os na allwch gael mynediad i'r ffurflen ar-lein neu os oes angen rhagor o gymorth arnoch, cysylltwch â ni yn grantiau@celf.cymru. Ar ôl i ni dderbyn eich cais, byddwn yn anfon cydnabyddiaeth atoch.

3. Byddwn yn gwirio eich cymhwysedd. Byddwn hefyd yn adolygu cyllideb eich prosiect i sicrhau bod y ffigurau'n gywir. Os oes unrhyw wybodaeth ar goll, byddwn yn cysylltu â chi. Bydd gennych hyd at 5 diwrnod gwaith i ddatrys unrhyw broblemau.

4. Os yw eich cais yn gymwys, bydd yn mynd ymlaen i'r cam asesu.

Nid oes gan y Rhaglen Gyfalaf derfynau amser. Ar yr amod eich bod wedi trafod eich prosiect â swyddog gallwch gyflwyno eich cais ar unrhyw adeg. Mae ein cyfarfodydd yn cael eu cynnal sawl gwaith drwy gydol y flwyddyn a gallwch siarad â swyddog i ddarganfod yr amseriad gorau ar gyfer eich cais.

## Cyn i chi ddechrau

Sicrhewch eich bod wedi darllen ein Canllaw Cyffredinol ar Raglen Gyfalaf Cyngor Celfyddydau Cymru a'n Strategaeth Gyfalaf 2012-2017 cyn i chi ddechrau llenwi eich ffurflen gais.

Oes gennych bopeth sydd ei angen arnoch i lenwi eich ffurflen gais?

- Manylion cyswllt eich sefydliad a gwybodaeth am eich sefydliad (oni bai eich bod wedi gwneud cais o'r blaen gan ddefnyddio ein system ar-lein)
- Gwybodaeth am eich sefydliad yn ymwneud â chydraddoldeb
- Eich cynnig ysgrifenedig
- Cyllideb eich prosiect (rhaid i hwn fod ar y templed wedi'i lawrlwytho)
    - Sut i ddefnyddio templed cyllideb y prosiect
- Dogfennau ategol sy'n berthnasol ar gyfer y math o gais. Bydd y nodiadau hyn yn egluro mwy am y dogfennau sydd eu hangen ar gyfer pob math o gais
- Gwybodaeth ategol arall (megis tystiolaeth o'r galw am eich prosiect a llythyrau yn cadarnhau unrhyw gefnogaeth mewn nwyddau i'ch prosiect)

## Pa gwestiynau y bydd angen i mi eu hateb?

Rydych yn barod i ddechrau eich cais. Mae'r ffurflen gais wedi'i threfnu fel a ganlyn:

### 1. Gwiriadau Cyn Ymgeisio

Gwybodaeth ragarweiniol a rhestr wirio cyn ymgeisio.

### 2. Cysylltu â Chi

Gwybodaeth am bwy i gysylltu â nhw mewn perthynas â'r cais. Bydd hyn yn cynnwys eich dewisiadau iaith a gwybodaeth am gyfrif banc.

### 3. Manylion Eich Prosiect

Gwybodaeth allweddol am eich prosiect, gan gynnwys ei deitl, ei ddyddiad dechrau a gorffen a'i wybodaeth gyllidebol sylfaenol.

## 4. Ffocws y Prosiect

Defnyddiwch y blwch ticio i ddewis y math o gais (dewiswch un) a blaenoriaethau ariannu.

Rydym yn defnyddio blaenoriaethau ariannu i'n helpu i dargedu ein buddsoddiad ac i ddewis rhwng ceisiadau. Gallwch ddarllen mwy am ein blaenoriaethau cyllido yn ein Canllaw Cyffredinol ar Raglen Gyfalaf y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru.

Dywedwch wrthym am eich prosiect, yr hyn yr ydych yn bwriadu ei wneud, beth fydd yn ei gyflawni a pham yr ydych eisiau gwneud y prosiect?

## 5. Canllawiau ar Gynnig Prosiect

Rydym wedi nodi wyth thema fras y mae'n rhaid i bob cais am arian Cyfalaf y Loteri gyfeirio atynt,  sef:

- Diwallu angen a glustnodwyd
- Cyflawni prosiect o safon uchel
- O fudd i'r cyhoedd
- Sicrhau bod eich prosiect yn hollol hygyrch
- Dangos eich cryfderau a'ch cynaliadwyedd
- Cynllunio a rheoli prosiect llwyddiannus
- Ariannu prosiect llwyddiannus
- Rheoli risg

Bydd pob rhan o'ch cynnig yn ymwneud ag un o'r themâu hyn.

Mae'n bwysig eich bod yn dilyn y strwythur hwn a'r canllawiau ar y wybodaeth y mae angen i chi ei darparu gan fod hyn yn ein helpu i gymharu tebyg at ei debyg fel rhan o'r broses asesu.

Ym mhob adran bydd angen i chi ddweud rhai ffeithiau allweddol wrthym am eich prosiect. Bydd angen i chi hefyd ddangos i ni i ba raddau y mae eich prosiect yn mynd i'r afael â phob un o'r themâu hyn. Rydym yn dweud mwy wrthych am y wybodaeth y mae'n rhaid i chi ei darparu yn yr adrannau isod.

Lle bynnag y bo modd, rhowch dystiolaeth i ni i gefnogi eich cynnig. Yn benodol mae angen i ni weld tystiolaeth glir o'r galw am eich prosiect a'r gefnogaeth iddo.

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth yn eich cynnig prosiect i'n helpu i wneud penderfyniad ar eich cais. Rydym yn ystyried pa mor dda yr ydych wedi mynd i'r afael â'r themâu bras yr ydym wedi'u nodi. Rydym hefyd yn ystyried ein blaenoriaethau strategol a chyllido, ein gwybodaeth am eich sefydliad a'ch prosiectau blaenorol yr ydym wedi'u hariannu.

## 6. Diwallu angen a glustnodwyd

### Dywedwch wrthym am eich prosiect a pham mae ei angen

- Disgrifiwch eich prosiect Pa gyfarpar yr ydych chi eisiau ei brynu, sut y bydd yn cael ei ddefnyddio a ble y bydd yn cael ei osod neu ei storio?

Ar gyfer pob prosiect:

- Dywedwch wrthym sut y mae eich prosiect yn cyd-fynd â nodau eich sefydliad a pham mae ei angen:
    - Pam mae'n briodol i'ch sefydliad gyflawni'r prosiect hwn?
    - Sut y bydd yn eich helpu i ehangu neu wella'r hyn yr ydych yn ei wneud eisoes?
    - Pa dystiolaeth sydd gennych o'r galw?
    - Sut y byddwch yn nodi ac yn sefydlu'r angen am eich prosiect?
    - Gyda phwy y byddwch yn ymgynghori ynglŷn â'ch prosiect, er enghraifft darpar ddefnyddwyr, staff, rhanddeiliaid, partneriaid y prosiect? Sut mae eich prosiect yn diwallu eu hanghenion?
    - A yw eich prosiect yn rhan o gynllun strategol ehangach, er enghraifft strategaeth adfywio neu strategaeth gelfyddydol wedi'i harwain gan awdurdod lleol?
    - A oes unrhyw strategaethau neu fentrau eraill sy'n berthnasol i'ch prosiect? Gallai hyn fod ar lefel genedlaethol, lefel ranbarthol neu lefel leol, er enghraifft Llywodraeth Cymru, ar lefel awdurdod lleol neu ein Strategaeth Gorfforaethol ein hunain Er budd pawb
    - Sut y bydd yn cyfrannu at y seilwaith celfyddydau cenedlaethol?

Ar gyfer gwaith cyfalaf mawr:

- Dywedwch wrthym am y gwaith adeiladu neu adnewyddu yr ydych eisiau ei wneud. Dywedwch wrthym am ofynion cyfalaf eich cynllun a sut y mae eich prosiect yn diwallu anghenion llety a gofynion technegol eich defnyddwyr.

- Os yw eich cais yn ymwneud ag astudiaeth ddichonoldeb (Cam 2 RIBA) neu waith datblygu dylunio (Cam 3/Cydgysylltu Gofodol RIBA) dywedwch wrthym beth yr ydych yn ceisio mynd i'r afael ag ef yn eich astudiaeth:

    - Beth yw'r ysgogiad ar gyfer eich astudiaeth?

    - Beth yw'r cyfle yr ydych wedi'i nodi?

    - Pa opsiynau y byddwch yn eu harfarnu yn eich astudiaeth?

    - Pa ragdybiaethau y byddwch yn eu profi?

    - Sut y bydd astudiaeth ddichonoldeb yn asesu a fydd yn eich helpu i ehangu neu wella'r hyn yr ydych yn ei wneud eisoes?

    - Dywedwch wrthym pa waith yr ydych wedi'i wneud i sicrhau na fydd angen mwy o incwm Cyngor y Celfyddydau ar eich sefydliad o ganlyniad i gwblhau eich prosiect.

- Dywedwch wrthym pam yr ydych yn meddwl bod eich prosiect yn diwallu'r angen a nodwyd gennych Gallwch hefyd gyflwyno gwybodaeth ychwanegol i gefnogi eich barn bod angen eich prosiect.

Rydym yn edrych am y canlynol:

- Disgrifiad clir o brosiect sy'n seiliedig ar waith ymchwil da

- I ba raddau yr ydych wedi dangos yr angen am eich prosiect a pha mor dda y mae eich prosiect yn diwallu'r angen yr ydych wedi'i nodi

- Lle bo hynny'n berthnasol, rhowch ddisgrifiad clir o brosiect sy'n seiliedig ar waith ymchwil da ac sy'n cyfiawnhau buddsoddiad pellach i symud ymlaen i'r cam datblygu dyluniad (Cam 3/Cydgysylltu Gofodol RIBA)

## 7. Cyflawni prosiect o safon uchel

Dywedwch wrthym beth yw nodau eich prosiect. Beth rydych chi eisiau ei gyflawni? Pa gamau y byddwch chi'n eu cymryd i sicrhau bod eich prosiect yn addas at y diben ac y bydd o ansawdd uchel?

- Dywedwch wrthym beth yw nodau eich prosiect. Sut y gwnaethoch chi gytuno ar y rhain?

- Dywedwch wrthym sut y byddwch yn sicrhau eich bod yn cyflawni prosiect o safon uchel?
    - Pa gamau yr ydych wedi'u cymryd i sicrhau bod eich prosiect wedi'i ddylunio'n dda ac yn addas at y diben?
- Dangoswch i ni eich bod wedi ystyried ymarferoldeb eich prosiect:
    - Dangos sut y mae unrhyw waith adeiladu neu ailddatblygu/adnewyddu yn briodol i'w ddefnydd arfaethedig, neu'n 'addas at y diben'
    - o Dywedwch wrthym sut y bydd eich prosiect yn gwneud defnydd arloesol o'r lle sydd ar gael i chi
- Os bydd rhaid i'ch prosiect gwblhau astudiaeth ddichonoldeb:
    - Pa gamau yr ydych wedi'u cymryd i sicrhau y bydd eich astudiaeth ddichonoldeb yn diwallu anghenion eich sefydliad ac yn addas at y diben?
    - o Sut y byddwch yn sicrhau bod eich astudiaeth ddichonoldeb yn dangos bod y prosiect yn hyfyw yn dechnegol ac yn ariannol?
    - o Sut y byddwch yn cytuno ar y weledigaeth a'r Briff Terfynol ar gyfer eich prosiect fel rhan o'r broses o gwblhau eich astudiaeth ddichonoldeb?
- Dangoswch i ni sut yr ydych wedi ystyried effaith ffisegol eich prosiect:
    - Os ydych yn ailddatblygu neu'n adnewyddu adeilad sy'n bodoli eisoes, dywedwch wrthym sut mae'n integreiddio â gweddill eich adeilad / safle
    - Dywedwch wrthym sut y byddwch yn sicrhau y bydd unrhyw waith allanol yn integreiddio â'r adeiladau cyfagos a'r amgylchedd o'i gwmpas
- Dangoswch i ni sut yr ydych wedi ystyried egwyddorion datblygu cynaliadwy yn ei ystyr ehangaf:
    - Dywedwch wrthym sut y mae eich prosiect yn cyfrannu at y nodau llesiant fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Dywedwch wrthym sut yr ydych wedi ystyried perfformiad amgylcheddol eich prosiect:

- Dangoswch i ni sut yr ydych yn anelu at leihau'r galw am ynni, yn ogystal â chynyddu effeithlonrwydd ynni a gwneud y defnydd gorau o danwydd adnewyddadwy
- Dywedwch wrthym sut y byddwch yn gwneud y defnydd gorau o ddeunyddiau cynaliadwy
- Os ydych wedi cwblhau asesiad cynaliadwyedd fel rhan o'ch gwaith datblygu dylunio (Cam 3/Cydgysylltu Gofodol RIBA) dywedwch wrthym am y canfyddiadau allweddol a sut y byddwch yn gweithredu'r argymhellion
- Dywedwch wrthym sut y byddwch yn lleihau'r defnydd o ddŵr yn eich adeilad
- Dywedwch wrthym am eich dull o reoli gwastraff a llygredd, yn ystod y cyfnod adeiladu a phan fydd yr adeilad yn weithredol
- Dywedwch wrthym sut yr ydych wedi ystyried goblygiadau teithio a thrafnidiaeth eich prosiect, ac a ydych wedi dyfeisio cynllun teithio gwyrdd
- Dywedwch wrthym sut yr ydych wedi ystyried perfformiad amgylcheddol y cyfarpar yr ydych wedi dewis ei brynu

- Os ydych yn prynu cyfarpar, dywedwch wrthym:
  - Pa waith ymchwil yr ydych wedi'i wneud i sicrhau bod y cyfarpar yr hoffech ei brynu yn briodol i'r angen yr ydych wedi'i nodi?
  - Pa waith ymchwil yr ydych wedi'i wneud i ansawdd y cynnyrch yr ydych eisiau ei brynu a'i oes a'i gostau cynnal a chadw?
  - Pa waith ymchwil yr ydych wedi'i wneud i ddangos bod y cyfarpar yr ydych wedi dewis ei brynu yn cynnig gwerth am arian?
- Dywedwch wrthym sut y byddwch yn dewis eich cyflenwr/cyflenwyr, eich tîm proffesiynol a'ch contractwr/contractwyr.
  - Beth yw eich dull arfaethedig o ymdrin â'r gwaith adeiladu / penodiadau os nad ydynt wedi'u penodi eto?
- Dangoswch i ni sut y byddwch yn bodloni'r rhwymedigaethau statudol yn ystod y cyfnod adeiladu o ran:
  - Rheoliadau Adeiladu

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
- Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2015
- Rheoliadau Rheoli Asbestos

Pan fyddwch yn prynu nwyddau a gwasanaethau ar gyfer eich prosiect rhaid i chi gydymffurfio â holl ddeddfwriaethau cyfredol y DU ar gaffael sy'n berthnasol i'ch sefydliad a'ch prosiect. Fan leiaf, bydd angen i unrhyw unigolyn neu sefydliad / contractwr sy'n gweithio ar eich prosiect a fydd yn derbyn £5,000 neu fwy gael ei benodi drwy broses gystadleuol. Rhaid i chi gael o leiaf dri dyfynbris annibynnol. Yn dibynnu ar y math o waith efallai y byddwn yn gofyn i chi gwblhau proses dendro agored yn lle hynny. Ar gyfer gwaith sy'n werth dros £25,000 mae'n rhaid i chi gwblhau proses dendro gystadleuol agored (fel arfer drwy GwerthwchiGymru) ac efallai y byddwn yn gofyn am fod yn rhan o'r broses hon. Os yw'r penodiadau hyn eisoes wedi'u gwneud bydd angen i chi gyflwyno adroddiad tendro priodol.

Os ydych yn bwriadu prynu cyfarpar mae'n rhaid i chi gyflwyno tri dyfynbris gan gyflenwyr ar wahân ar gyfer pob eitem neu becyn o eitemau sy'n costio £2,500 neu fwy. Dylech hefyd gyflwyno adroddiad tendro sy'n dweud wrthym pam yr ydych wedi dewis defnyddio'r cyflenwr penodol hwnnw a pham mae prynu'r cyfarpar yn y modd hwn yn sicrhau gwerth am arian.

Gallwch ddarllen mwy am ein gofynion ar gyfer datblygu cynaliadwy ac effaith amgylcheddol eich prosiect; ac am ansawdd dylunio ac adeiladu a chaffael yn ein Nodiadau Canllaw Ychwanegol: Prosiectau Cyfalaf Mawr.

Rydym yn edrych am y canlynol:

- Nodau clir, priodol a chyraeddadwy, y mae holl randdeiliaid eich prosiect wedi cytuno arnynt
- I ba raddau yr ydych wedi dangos y byddwch yn cyflwyno prosiect o ansawdd uchel a fydd yn diwallu eich gofynion ac sy'n addas at y diben

## 8. O fudd i'r cyhoedd

**Dywedwch wrthym am effaith eich prosiect a'r buddion y bydd yn eu cynnig i bobl Cymru.**

- Dywedwch wrthym am ganlyniadau eich prosiect. Beth fydd yn newid os gallwch gyflawni'r prosiect hwn? Beth ydych chi'n gobeithio fydd effaith hirdymor eich prosiect?
- Dywedwch wrthym sut y bydd eich prosiect yn gwneud cyfraniad at sector y celfyddydau yng Nghymru. Dylech wneud hyn drwy ddangos sut y mae eich

prosiect yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau cyllido ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf. Gallwch ddarllen mwy am ein blaenoriaethau cyllido yn ein Canllaw Cyffredinol ar Raglen Gyfalaf y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru ac yn ein Strategaeth Gyfalaf 2012-2017.

- Disgrifiwch y bobl a fydd yn elwa o'ch prosiect a dywedwch wrthym sut y byddant yn elwa ohono. Er enghraifft:
    - A fydd eich prosiect o fudd i'r bobl sydd eisoes yn mwynhau'r gweithgaredd celfyddydol yr ydych yn ei ddarparu, fel aelodau o'r gynulleidfa neu gyfranogwyr?
    - A fydd eich prosiect yn helpu cynulleidfa ehangach i fwynhau'r gweithgaredd celfyddydol yr ydych yn ei ddarparu, neu'n annog pobl i gymryd rhan ynddo, mewn ffordd nad oeddent wedi'i wneud o'r blaen o bosibl?
    - Sut y byddwch yn sicrhau bod eich prosiect yn eich helpu i gyrraedd cynulleidfa fwy amrywiol?
    - A fydd eich prosiect yn helpu gweithwyr proffesiynol creadigol fel artistiaid a chrefftwyr i ddatblygu a chyflwyno eu gwaith?
    - A fydd eich prosiect o fudd i'ch staff a'ch gwirfoddolwyr?
- Dywedwch wrthym sut y bydd eich prosiect yn effeithio ar ansawdd a maint y gwaith yr ydych yn ei wneud
- Dywedwch wrthym sut y byddwch yn gwneud canlyniadau eich prosiect mor gynhwysol â phosibl drwy egluro sut yr ydych wedi ystyried anghenion grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd
- Dywedwch wrthym sut y byddwch yn marchnata canlyniadau eich prosiect i sicrhau'r cyfranogiad ehangaf posibl yn eich gweithgaredd celfyddydol

Rydym yn edrych am y canlynol:

- Y graddau yr ydych wedi dangos i ni bod canlyniadau'r prosiect yr ydych yn ceisio'u cyflawni yn gyraeddadwy
- Y graddau yr ydych wedi ystyried cynhwysiant, cydraddoldeb ac amrywiaeth yn briodol, ac wedi dangos bod gan eich sefydliad ymrwymiad i leihau rhwystrau i fynychu ac ymgyfranogi.

## 9. Sicrhau bod eich prosiect yn hollol hygyrch

**Dywedwch wrthym pa gamau yr ydych wedi'u cymryd i sicrhau bod eich prosiect yn bodloni gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb?**

- Dywedwch wrthym a ydych wedi cynnal archwiliad annibynnol o fynediad yn ddiweddar:
    - Beth yw canfyddiadau allweddol eich archwiliad annibynnol o fynediad a sut y byddwch yn rhoi ei argymhellion ar waith yn eich prosiect?
- Os nad ydych wedi cynnal archwiliad o fynediad, dywedwch wrthym pam a'r hyn yr ydych wedi'i wneud yn lle hynny i sicrhau hygyrchedd
- Dywedwch wrthym sut y bydd eich prosiect yn sicrhau cymaint o fynediad annibynnol â phosibl i'r ystod ehangaf o bobl, gan gynnwys pobl anabl, boed fel mynychwyr, cyfranogwyr, artistiaid neu aelodau o staff
- Dywedwch wrthym sut y byddwch yn gwneud canlyniadau eich prosiect mor gynhwysol â phosibl drwy egluro sut yr ydych wedi ystyried anghenion pobl anabl

## 10. Dangos eich cryfderau a'ch cynaliadwyedd

**Dywedwch wrthym am eich sefydliad a sut mae'n cael ei reoli. Dangoswch i ni eich bod wedi ystyried effaith ariannol eich prosiect ar eich sefydliad.**

- Dywedwch wrthym am eich strwythurau rheoli a staff, a sut mae eich sefydliad yn cael ei lywodraethu:
    - Pa sgiliau a phrofiad y mae eich corff llywodraethu yn eu dwyn i'r sefydliad?
- Os ydych yn gwneud cais am gyllid cyfalaf mawr, dywedwch wrthym am yr 'archwiliad iechyd' sefydliadol yr ydych wedi'i gynnal:
    - Dangoswch i ni sut yr ydych wedi adolygu cryfder eich corff llywodraethu, staff a gwirfoddolwyr
    - Dywedwch wrthym am brofiad y rhai sy'n ymwneud â chyflawni prosiect o'r un maint â chymhlethdod â hwn
    - Dywedwch wrthym sut yr ydych yn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau yr ydych wedi'u nodi yn y sgiliau, y profiad a'r capasiti sydd eu hangen i gyflawni eich prosiect

- Dangoswch i ni eich bod wedi ystyried effaith eich prosiect ar allu eich sefydliad i gyflawni ei weithgarwch arferol:
    - Ydych chi'n cymryd camau i gryfhau eich sefydliad wrth gyflawni eich prosiect?
    - Dywedwch wrthym am effaith yn sgil gorfod cau adeiladau yn ystod y cyfnod adeiladu a sut y bydd hyn yn cael ei reoli
    - Dywedwch wrthym am effaith y cam adeiladu ar eich rhaglen artistig a sut y bydd hyn yn cael ei reoli
- Dangoswch i ni bod eich sefydliad yn gadarn yn ariannol ac yn cael ei reoli'n dda
- Dangoswch i ni eich bod wedi ystyried goblygiadau ariannol eich prosiect yn llawn:
    - Dangoswch eich bod yn gallu talu unrhyw gostau rhedeg, cynnal a chadw a chostau cylch bywyd newydd sy'n gysylltiedig â'ch prosiect yn flynyddol. Sut yr ydych wedi cyfrifo'r costau hyn?
    - Dangoswch eich bod yn gallu talu costau yswiriant a chynnal a chadw eich cyfarpar yn flynyddol. Pa drefniadau y byddwch chi'n eu rhoi ar waith i yswirio'r cyfarpar?
    - Dywedwch wrthym a yw eich asesiadau'n dangos y bydd eich prosiect yn cael effaith gadarnhaol ar wytnwch ariannol eich sefydliad. Er enghraifft, drwy gynhyrchu incwm, torri costau neu eich galluogi i weithio mewn partneriaeth ag eraill
- Dywedwch wrthym a fydd eich prosiect yn galluogi mentrau newydd i ddigwydd neu a fydd yn eich helpu i ymateb i gyfleoedd newydd
- Dywedwch wrthym a fydd eich prosiect yn eich helpu i wneud y mwyaf o gyfleoedd ariannu o ffynonellau eraill?
- Os yw eich cais yn ymwneud ag astudiaeth ddichonoldeb (Cam 2 RIBA) dywedwch wrthym:
    - Sut y bydd yr astudiaeth ddichonoldeb yn ystyried effaith ariannol eich prosiect yn llawn, er enghraifft goblygiadau cylch bywyd a refeniw
    - o Sut y bydd yr astudiaeth ddichonoldeb yn asesu a fydd / sut y bydd eich prosiect yn cael effaith gadarnhaol ar wytnwch ariannol eich sefydliad. Er

enghraifft, drwy gynhyrchu incwm, torri costau neu eich galluogi i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill

    - Dangoswch i ni sut y bydd eich astudiaeth ddichonoldeb yn ymchwilio i gyfleoedd i wneud y mwyaf o gyfleoedd i gael cyllid refeniw o ffynonellau eraill

    - Dywedwch wrthym sut y byddwch yn bwrw ymlaen â'r canfyddiadau hyn fel rhan o'ch proses cynllunio busnes barhaus

**Rydym yn edrych am y canlynol:**

- I ba raddau yr ydych wedi dangos i ni bod eich sefydliad yn cael ei reoli'n dda ac yn sefydlog, ac mewn sefyllfa dda i ymgymryd â phrosiect cyfalaf

- I ba raddau yr ydych wedi dangos i ni bod eich sefydliad yn gadarn yn ariannol

- I ba raddau yr ydych  wedi ystyried yr effaith ariannol y gallai eich prosiect ei chael ar eich sefydliad

Gallwch ddarllen mwy am ein gofynion ar gyfer cwblhau 'gwiriad iechyd' eich sefydliad yn ein Nodiadau Canllaw Ychwanegol: Prosiectau Cyfalaf Mawr

## 11. Cynllunio a rheoli prosiect llwyddiannus

**Dywedwch wrthym am eich dull o weithredu'r prosiect. Dywedwch wrthym pwy fydd yn gyfrifol am ei reoli a'i gyflawni a sut y byddwch yn cadw'r prosiect ar y trywydd iawn.**

- Dywedwch wrthym sut y byddwch yn rheoli'ch prosiect:

    - Pwy yn eich sefydliad sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am ei gyflawni?

    - Ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr, dywedwch wrthym am y Grŵp Llywio y mae'n rhaid i chi ei sefydlu i oruchwylio'r prosiect, a sut y bydd yn cael ei redeg

    - A fyddwch yn gweithio gydag unrhyw un y tu allan i'ch sefydliad i gyflawni'ch prosiect fel Rheolwr Prosiect Annibynnol? Os felly, dywedwch wrthym am eu rôl a sut a pham y cawsant eu penodi

    - Os nad ydych yn penodi Rheolwr Prosiect allanol, pam? Gall hyn fod oherwydd nad yw maint y prosiect yn cyfiawnhau hynny, neu efallai eich bod yn teimlo bod gan eich sefydliad adnoddau mewnol digonol i gwmpasu'r maes hwn. Bydd angen i chi ein hargyhoeddi o hyn oherwydd gall fod yn rôl feichus a llafurus, yn enwedig i sefydliadau bach

    - Sut y byddwch yn sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau yn eglur os ydych yn cyflawni eich prosiect mewn partneriaeth, neu'n gweithio gydag un contractwr / cyflenwr neu fwy?

    - Dywedwch wrthym os oes gennych unrhyw brofiad o gyflawni prosiectau tebyg. Beth wnaethoch chi ei ddysgu o'r rhain y gallwch ei roi ar waith yn eich prosiect nawr?

- Dywedwch wrthym am amserlen eich prosiect a dangoswch i ni ei bod yn ymarferol

- Dywedwch wrthym sut y byddwch yn cadw'ch prosiect ar y trywydd iawn:

    - Sut y byddwch chi / y rheolwr prosiect a benodwyd yn monitro cyllideb eich prosiect?

    - Sut y byddwch chi / y rheolwr prosiect a benodwyd yn goruchwylio tîm eich prosiect a'ch contractwr / contractwyr?

    - Sut y byddwch chi / y rheolwr prosiect a benodwyd yn monitro cynnydd eich prosiect ac yn adrodd ar hyn i'ch corff llywodraethu ac uwch staff?

- Ar gyfer prosiect cyfalaf mawr, sut y byddwch yn rheoli datblygiad strategaeth celf gyhoeddus ac yn comisiynu gweithiau celf?

- Sut y byddwch yn gwybod a yw eich prosiect gorffenedig wedi bod yn llwyddiannus?

**Rydym yn edrych am y canlynol:**

- I ba raddau rydych wedi dangos y gallwch gyflawni a rheoli'r prosiect yn llwyddiannus, gan sicrhau ei fod yn cael ei gwblhau ar amser ac o fewn y gyllideb

- Pa mor dda yr ydych wedi dangos bod gan dîm eich prosiect y sgiliau a'r profiad gofynnol i gyflawni eich prosiect

Gallwch ddarllen mwy am ein gofynion ar gyfer Rheolwr Prosiect Annibynnol ac integreiddio celf gyhoeddus i'ch prosiect cyfalaf mawr yn ein Nodiadau Canllaw Ychwanegol: Prosiectau Cyfalaf Mawr.

## 12. Ariannu prosiect llwyddiannus

**Dywedwch wrthym am gyllideb y prosiect a'r cyllid arall sydd angen i chi ei godi er mwyn cyflawni eich prosiect Rhaid i chi lanlwytho cyllideb y prosiect i adran atodiadau eich cais.**

- Dywedwch wrthym am unrhyw ragdybiaethau yr ydych wedi eu gwneud wrth lunio cyllideb eich prosiect:
    - Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r ffigurau yng nghyllideb eich prosiect?
    - Ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr, dylai costau'r prosiect fod yn seiliedig ar Adroddiad Cost Gam 3/Cydgysylltu Gofodol
- Dywedwch wrthym am y cyllid partneriaeth sydd ei angen arnoch ar gyfer eich prosiect:
    - O ble y daw?
    - A yw yn ei le?
    - Os nad yw wedi'i sicrhau, dywedwch wrthym am eich dull o godi arian a dangoswch y bydd yn cael ei godi mewn pryd
- Dywedwch wrthym am y costau cyfalaf amlinellol ar gyfer eich prosiect mawr yr ydych wedi'u nodi fel rhan o'ch astudiaeth ddichonoldeb a'ch gwaith datblygu dyluniad
- Dywedwch wrthym os oes gennych unrhyw syniad o unrhyw ffynonellau cyllid eraill a allai gyfrannu at gost cyfalaf eich prosiect
- Dangoswch i ni sut y byddwch yn datblygu eich strategaeth codi arian fel rhan o'r broses cynllunio busnes yr ydych yn ei wneud ar gyfer prosiect cyfalaf mawr

Rydym yn edrych am y canlynol:

- Cyllideb prosiect sy'n seiliedig ar ragdybiaethau realistig ac sy'n briodol i faint a natur y prosiect yr ydych yn ei gyflawni
- Pa mor llwyddiannus y buoch chi o ran codi arian a pha mor debygol yw hi y byddwch yn codi'r holl arian sy'n ofynnol ar gyfer eich prosiect, os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes
- Ar gyfer ceisiadau am gyfarpar byddwn yn edrych am gyllideb syml sy'n dangos costau'r prif elfennau. Ar gyfer prosiectau adeiladu mwy o faint, byddwn yn disgwyl i hyn gynnwys manylion priodol mewn dogfen Cynllun Costau ffurfiol

Gallwch ddarllen mwy am ein gofynion mewn perthynas â Chyllideb y Prosiect a Chynllun Cost Cam 3/Cydgysylltu Gofodol yn ein Nodiadau Canllaw Ychwanegol: Prosiectau Cyfalaf Mawr.

## Sut i ddefnyddio'r templed cyllideb prosiect

Rhaid cyflwyno cyllideb eich prosiect ar ein Templed Cyllideb Prosiect

Bydd y templed yn cyfrifo is-gyfansymiau i chi yn awtomatig ac yn helpu i sicrhau bod eich cyllideb wedi'i mantoli. Dylech gwblhau'r blychau gwyn ar y daenlen, lle bo hynny'n briodol. Os nad yw rhai o'r penawdau'n berthnasol i'ch prosiect gallwch eu gadael yn wag. Ni ddylid newid celloedd sydd wedi'u lliwio. Defnyddiwch £ llawn yn unig.

Dylai cyllideb eich prosiect ddweud wrthym faint fydd cost eich prosiect (gwariant) a faint y byddwch yn ei dderbyn i dalu amdano (incwm). Dylai'r incwm a'r gwariant ar gyfer eich prosiect fantoli (bod yn gyfartal). Ni allwn dderbyn eich cyllideb os nad yw'n mantoli felly gwiriwch hyn yn ofalus.

## Gwariant y Prosiect

Defnyddiwch y templed i ddweud wrthym faint fydd cost eich prosiect. Defnyddiwch y penawdau ar y templed i ddangos i ni beth yw cost yr holl eitemau y byddwch yn talu amdanynt fel rhan o'ch prosiect. Gallwch ychwanegu penawdau costau yn dibynnu ar anghenion eich prosiect.

Rhaid i'r costau yr ydych yn eu cynnwys fod yn gymwys. Gallwch ddarllen mwy am y costau y gallwn ac na allwn dalu amdanynt yn ein Canllaw Cyffredinol ar Raglen Gyfalaf Cyngor Celfyddydau Cymru.

### Cyfarpar

Dywedwch wrthym am gost y cyfarpar yr ydych chi eisiau ei brynu. Dylech rannu'r gost yn eitemau neu becynnau unigol. Pecyn yw grŵp o eitemau yr ydych yn bwriadu eu harchebu gan un cyflenwr. Er enghraifft, os ydych yn bwriadu prynu llawr dawnsio cludadwy gan un cyflenwr a rhywfaint o offer sain cludadwy gan un arall, byddai eich cyllideb yn edrych fel hyn:

| Cyfarpar | | |
|---|---|---|
| Cyfarpar (Eitem 1 / Pecyn 1) | Llawr dawnsio cludadwy | £1,700 |
| Cyfarpar (Eitem 2 / Pecyn 2) | Cyfarpar sain cludadwy | £3,500 |

Dylai'r gost yr ydych yn ei chynnwys yng nghyllideb eich prosiect gyfateb â dyfynbrisiau'r cyflenwyr y byddwch yn eu cyflwyno gyda'ch cais.

### Gwaith adeiladu

Dywedwch wrthym am gyfanswm cost y gwaith adeiladu. Efallai yr hoffech rannu hyn yn wahanol becynnau gwaith os byddwch yn defnyddio gwahanol gontractwyr i gyflawni gwahanol elfennau o waith. Ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr, dylech hefyd ystyried

gwahanu'r gwaith galluogi oddi wrth y prif gontract adeiladu. Mae gwaith galluogi yn waith adeiladu y mae angen ei wneud er mwyn galluogi'r prosiect i ddechrau, ond nad ydynt yn rhan o'r prosiect ei hun, er enghraifft adeiladu mynedfa i'r safle.

Os ydych yn bwriadu talu £5,000 neu fwy i unrhyw unigolyn neu sefydliad / contractwr, bydd angen i chi eu penodi drwy broses ddethol gystadleuol. Byddwn yn gwirio i sicrhau eich bod wedi penodi pobl neu sefydliadau eraill i weithio ar eich prosiect mewn modd priodol. Byddwn yn disgwyl i chi gyflwyno o leiaf dri dyfynbris gan gontractwyr gwahanol.

Os ydych yn bwriadu talu £25,000 neu fwy i unrhyw unigolyn neu sefydliad / contractwr byddwn yn gofyn i chi gyflwyno adroddiad tendro sy'n dweud wrthym pam yr ydych wedi dewis defnyddio'r contractwr hwnnw. Disgwylir i chi hefyd benodi drwy broses dendro agored a dylech ofyn i ni gymeradwyo'r dogfennau tendro cyn hysbysebu.

Os ydych eisoes wedi cael dyfynbrisiau neu dendrau ar gyfer eich prosiect, dylech ddefnyddio'r amcangyfrifon fel sail i gyllideb eich prosiect.

Os ydych wedi cwblhau astudiaeth ddichonoldeb (Cam 2 RIBA) a datblygu dyluniad (Cam 3 / Cydgysylltu Gofodol RIBA) dylid tynnu'r ffigurau yr ydych yn eu cyflwyno yng nghyllideb eich prosiect o Gynllun Cost Cam 3/Cydgysylltu Gofodol.

Os oes angen mwy o le arnoch, gallwch ddefnyddio'r adran “Costau eraill” ar y templed i ddweud wrthym am gostau prosiect nad ydynt wedi'u hamlinellu yn y penawdau.

### Costau Dodrefnu

Mae costau dodrefnu fel arfer yn ymwneud ag eitemau fel cyfarpar a dodrefn rhydd sy'n cael eu prynu fel rhan o brosiect cyfalaf mawr ond y tu allan i'r prif gontract adeiladu.

### Ffioedd Proffesiynol

Dywedwch wrthym am unrhyw ffioedd proffesiynol y byddwch yn eu talu. Dylech ddweud wrthym yn adran “Cynllunio a Rheoli Prosiect Llwyddiannus” eich cynnig prosiect pam mae angen i chi dalu ffioedd proffesiynol. Os ydych yn bwriadu talu £5,000 neu fwy i unrhyw unigolyn neu sefydliad, bydd angen i chi eu penodi drwy broses ddethol gystadleuol. Byddwn yn gwirio i sicrhau eich bod wedi penodi pobl neu sefydliadau eraill i weithio gyda chi ar eich prosiect mewn modd priodol.

Os yw eich prosiect yn brosiect cyfalaf mawr dylech ddarllen ein Nodiadau Canllaw Ychwanegol: Prosiectau Cyfalaf Mawr sy'n rhoi rhagor o fanylion am ein gofynion ar gyfer penodi ymgynghorwyr allweddol fel pensaer, ymgynghorydd busnes, rheolwr prosiect, artistiaid ac arbenigwyr ychwanegol eraill. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth bellach i sicrhau eich bod yn deall sut y gall y penderfyniadau a wnewch ynglŷn â chaffael effeithio ar gamau diweddarach datblygiad eich prosiect.

### Gwerth cymorth mewn nwyddau

Gall hyn gynnwys gwaith gwirfoddolwr di-dâl, a chael tir, adeiladau neu gyfarpar yn rhodd. Nid ydym yn derbyn gostyngiadau a roddir gan gyflenwyr fel cyfraniad mewn nwyddau at eich prosiect. Mae hyn yn golygu na allwn dderbyn cyfraniad mewn nwyddau gan unrhyw gyflenwr yr ydych hefyd yn ei dalu fel rhan o'ch prosiect gan y byddem yn ystyried bod hwn yn ostyngiad.

Dylech gyflwyno llythyr gyda'ch cais sy'n cadarnhau'r cymorth mewn nwyddau ac yn dangos gwerth y nwyddau neu'r gwasanaethau sy'n cael eu rhoi, a sut yr ydych wedi cyfrifo hynny.

### TAW

Os ydych wedi'ch cofrestru ar gyfer TAW, dim ond TAW na allwch ei hawlio yn ôl (a elwir yn “TAW anadferadwy”) y dylai cyllideb eich prosiect ei gynnwys. Dywedwch wrthym sut yr ydych wedi cyfrifo swm y TAW anadferadwy yr ydych wedi'i gynnwys yng nghyllideb eich prosiect.

Os nad ydych wedi cofrestru ar gyfer TAW dylech gynnwys TAW yng nghyllideb eich prosiect. Gallwn ariannu TAW anadferadwy os ydych yn ei gynnwys yn eich cais gwreiddiol.

### Arian wrth gefn

Ar gyfer prosiectau cyfarpar, astudiaethau dichonoldeb (Cam 2 RIBA) a datblygu dyluniad (Cam 3/Cydgysylltu Gofodol RIBA) rydym yn argymell y dylid cael arian wrth gefn o ddim mwy na 5% o gost y cyfarpar neu'r astudiaeth.

Ar gyfer gwaith adeiladu neu adnewyddu rydym yn argymell wrth gefn o 10% o gost y prosiect.

### Costau Eraill

Dywedwch wrthym unrhyw gostau eraill y bydd yn rhaid i chi eu talu fel rhan o'ch prosiect. Gall hyn gynnwys costau recriwtio, arolygon fel arolwg asbestos, ffioedd cyfreithiol a thaliadau statudol.

## Incwm y Prosiect

Defnyddiwch y templed i ddweud wrthym am yr incwm y byddwch yn ei ddefnyddio i dalu am y prosiect. Dylech ddweud wrthym beth yw enw pob partner cyllido, ac a yw ei gyfraniad wedi'i gadarnhau neu a ydych yn gwneud cais am gyllid ganddo.

### Eich arian eich hun

Os ydych yn aelod o Bortffolio Celfyddydau Cymru ni all yr arian hwn ddod o'ch grant refeniw.

### Incwm a Enillir

Dywedwch wrthym yma am unrhyw arian a ddaw o incwm a enillir.

### Arian Awdurdod Lleol

Dywedwch wrthym yma am unrhyw arian a ddaw o incwm a enillir.

### Arian Awdurdod Lleol

Dywedwch wrthym yma am unrhyw grantiau gan yr Awdurdod Lleol.

### Cymorth mewn nwyddau

Dylai hyn fod yr un fath ag unrhyw gost mewn nwyddau y gwnaethoch ei chynnwys yn ffigurau gwariant eich prosiect.

### Incwm Arall

Dywedwch wrthym yma am unrhyw incwm arall y byddwch yn ei ddefnyddio i dalu am gost eich prosiect. Gall hyn gynnwys:

- Incwm o godi arian, apeliadau cyhoeddus a rhoddion
- Grantiau gan Ddosbarthwyr eraill Arian y Loteri
- Grantiau gan Ymddiriedolaethau a Sefydliadau

## 13. Rheoli Risg

**Dywedwch wrthym sut y byddwch yn nodi, yn monitro ac yn rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'ch prosiect.**

- Dywedwch wrthym a ydych eisoes wedi nodi unrhyw risgiau
- Dywedwch wrthym sut y byddwch yn nodi ac yn rheoli risgiau drwy gydol eich prosiect
- Dywedwch wrthym pwy sy'n gyfrifol am reoli risgiau ac adrodd hyn i'ch corff llywodraethu ac uwch staff?

Rydym yn edrych am y canlynol:

- Dull cydlynol a strategol o ddadansoddi a rheoli risg

## 14. Manylion yr Adeilad

**Peidiwch â chwblhau'r adrannau hyn os ydych yn gwneud cais i Brynu Cyfarpar.**

**Rhowch ychydig o wybodaeth allweddol i ni am yr adeilad a fydd yn elwa o'ch prosiect.**

Os nad ydych wedi adnabod yr adeilad a fydd yn elwa o'ch prosiect, dywedwch wrthym sut y byddwch yn cynnal arfarniad o opsiynau fel rhan o'ch prosiect.

Os yw'r adeilad yr ydych wedi'i nodi yn cael ei brydlesu, rhaid bod eich prydles yn para am o leiaf bum mlynedd ar hugain er mwyn bod yn gymwys i gael cyllid. Rhaid i chi hefyd gael caniatâd y landlord i ymgymryd â'r prosiect. Rhaid i chi gyflwyno cadarnhad ysgrifenedig o ganiatâd y landlord gyda'ch cais, os yw'n berthnasol.

Os yw'r adeilad yn adeilad rhestredig, rhaid i chi ddweud wrthym a yw'n adeilad Gradd I neu Radd II. Dylech drafod eich prosiect gyda'ch awdurdod cynllunio lleol a / neu CADW. Dywedwch wrthym am ganlyniad y trafodaethau hyn.

Bydd angen rhoi Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer unrhyw waith a fydd yn newid cymeriad adeilad rhestredig, cyn y gall fynd yn ei flaen. Dywedwch wrthym a ydych wedi cael Caniatâd Adeilad Rhestredig, neu a ydych yn aros am benderfyniad.

Os ydych wedi cynnal arolwg strwythurol o'ch adeilad wrth gynllunio a datblygu eich prosiect, rhaid i chi gyflwyno copi o'ch arolwg strwythurol gyda'ch cais, os yw ar gael.

Dywedwch wrthym am statws eich cais am ganiatâd cynllunio. A ydych wedi gwneud cais am ganiatâd cynllunio amlinellol neu lawn, a phryd yr ydych yn disgwyl penderfyniad? Os ydych wedi cael caniatâd cynllunio, dywedwch wrthym am unrhyw amodau sydd ynghlwm ag ef. Rhaid i chi gyflwyno copi o'ch caniatâd cynllunio gyda'ch cais, os yw ar gael.

Asbestos

O dan Reoliadau Rheoli Asbestos 2012, os ydych yn gyfrifol am gynnal a chadw adeiladau annomestig mae gennych “ddyletswydd i reoli” yr asbestos ynddynt, er mwyn diogelu unrhyw un sy'n defnyddio neu'n gweithio mewn adeilad rhag y peryglon i iechyd y mae dod i gysylltiad ag asbestos yn eu hachosi.

Os ydych am wneud unrhyw waith adeiladu neu gynnal a chadw mewn adeilad, neu ar beiriannau neu gyfarpar a allai gynnwys asbestos, mae angen i chi nodi ble y mae a'i fath a'i gyflwr; asesu'r risgiau a rheoli'r risgiau hyn.

Dylech ddweud wrthym sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r “ddyletswydd i reoli” mewn perthynas â'ch prosiect. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch: https://www.hse.gov.uk/asbestos/regulations.htm

## 15. Mathau o Gelfyddyd

Gwybodaeth am yr ystod o weithgaredd celfyddydol a fydd yn rhan o'ch prosiect.

## 16. Targedau

Gwybodaeth am yr ystod o weithgaredd celfyddydol a fydd yn rhan o'ch prosiect.

## 17. Iaith

Yr effaith yr ydych yn credu y bydd y prosiect hwn yn ei chael ar y Gymraeg:

Cadarnhaol, Negyddol neu Niwtral

## 18. Lleoliad

Dywedwch wrthym ble y bydd eich prosiect yn cael ei gynnal.

## 19. Cydraddoldeb

Rhowch wybodaeth monitro cydraddoldeb i ni ar gyfer eich prosiect.

## 20. Adolygu fy nghais

Mae'r adran hon yn eich galluogi i adolygu'r wybodaeth yr ydych wedi ei llenwi hyd yn hyn, a gwneud unrhyw newidiadau.

**Pan fyddwch yn barod gallwch gyflwyno eich cais.**

Ar ôl i chi bwyso Cyflwyno, dylech weld eich cais wedi'i restru o dan Ceisiadau a Gyflwynwyd yn adran Grantiau eich cyfrif. Byddwn hefyd yn anfon cydnabyddiaeth atoch drwy e-bost.

## 21. Adolygiad o'r gyllideb

## 22. Lanlwythiadau

Mae'r adran hon yn caniatáu i chi gyflwyno'ch holl ddogfennau ategol o'r enw atodiadau.

Rydym wedi tynnu sylw at yr atodiadau y mae'n rhaid i chi eu cyflwyno ar gyfer pob math o gais isod:

### Prynu Cyfarpar

- Cyllideb eich prosiect (rhaid i hyn fod ar ein Templed Cyllideb Prosiect wedi'i lawrlwytho)

- Rhestr lawn o'r eitemau yr ydych am eu prynu a'u costau
- Dyfynbrisiau gan gyflenwyr: rhaid i chi gyflwyno tri dyfynbris gan gyflenwyr ar wahân ar gyfer pob eitem neu becyn o eitemau sy'n costio £2,500 neu fwy.

**Gwybodaeth arall i gefnogi eich cais fel:**

- Adroddiad tendr
- Tystiolaeth o'r galw am eich prosiect
- Llythyrau yn cadarnhau unrhyw gymorth mewn nwyddau

### Gwaith Cyfalaf Bach - Adnewyddu Adeiladau

- Cyllideb eich prosiect (rhaid i hyn fod ar ein Templed Cyllideb Prosiect wedi'i lawrlwytho)
- Dadansoddiad manwl o gostau adeiladu, dodrefnu a chyfarpar i gefnogi cyllideb eich prosiect
- Briff Terfynol Eich Prosiect
- Set lawn o ddyluniadau sydd wedi'u cymeradwyo gan eich sefydliad
- Rhestr o gyfarpar i'w brynu ac unrhyw fanylebau technegol
- Eich Cynllun Busnes

**Gwybodaeth arall i gefnogi eich cais fel:**

- Adroddiad(au) tendr
- Dyfynbrisiau gan gyflenwyr / contractwyr
- Strategaeth Codi Arian
- Tystiolaeth o gyllid partneriaeth a sicrhawyd hyd yma
- Llythyrau yn cadarnhau unrhyw gymorth mewn nwyddau
- Tystiolaeth o'r galw am eich prosiect
- Arolwg strwythurol

- Arolwg asbestos
- Dogfennau caniatâd cynllunio
- Caniatâd Adeilad Rhestredig
- Caniatâd y landlord i'ch prosiect fynd yn ei flaen

### Gwaith Cyfalaf Mawr - Astudiaeth Ddichonoldeb (Cam 2 RIBA)

- Cyllideb eich prosiect (rhaid i hyn fod ar ein Templed Cyllideb Prosiect wedi'i lawrlwytho)
- Briff ar gyfer eich astudiaeth ddichonoldeb

**Gwybodaeth arall i gefnogi eich cais fel:**

- Gwaith cyn astudiaeth ddichonoldeb
- Briff ar gyfer penodi Rheolwr Prosiect i oruchwylio eich prosiect
- Llythyrau yn cadarnhau unrhyw gymorth mewn nwyddau
- Tystiolaeth o'r galw am eich prosiect
- Arolwg strwythurol
- Caniatâd y landlord i'r prosiect fynd yn ei flaen
- Cadarnhau cyllid partneriaeth

### Gwaith Cyfalaf Mawr - Datblygu Dylunio (Cam 3/Cydlynu Gofodol RIBA)

- Cyllideb eich prosiect (rhaid i hyn fod ar ein Templed Cyllideb Prosiect wedi'i lawrlwytho)
- Eich astudiaeth ddichonoldeb wedi'i chwblhau
- Briff Terfynol Eich Prosiect
- Eich Cynllun Busnes

**Gwybodaeth arall i gefnogi eich cais fel:**

- CVs aelodau'r tîm dylunio ac ymgynghorwyr eraill, (os ydynt wedi'u penodi)
- Briff ar gyfer penodi artist(iaid) i ddatblygu strategaeth ar gyfer integreiddio gweithiau celf i'ch prosiect
- Cynlluniau a lluniadau presennol o'ch adeilad a'ch safle
- Llythyrau yn cadarnhau unrhyw gymorth mewn nwyddau
- Tystiolaeth o'r galw am eich prosiect
- Arolwg strwythurol
- Caniatâd y landlord i'r prosiect fynd yn ei flaen
- Cadarnhau cyllid partneriaeth

### Gwaith Cyfalaf Mawr - Adeiladu (Cam 4 ymlaen RIBA)

- Cyllideb eich prosiect (rhaid i hyn fod ar ein Templed Cyllideb Prosiect wedi'i lawrlwytho)
- Cynllun Cost Cam 3/Cydgysylltu Gofodol
- Adroddiad Dylunio Cam 3/Cydgysylltu Gofodol a set lawn o ddyluniadau wedi'u cymeradwyo gan eich sefydliad
- Manylebau technegol a rhestr o gyfarpar i'w brynu
- Asesu cynaliadwyedd a strategaeth gynaliadwyedd
- Archwiliad Annibynnol o Fynediad
- Strategaeth Celf Gyhoeddus
- Cynlluniau Gweithredol a Chynnal a Chadw Ôl-Gwblhau
- Cylch Gorchwyl Grŵp Rheoli'r Prosiect
- Rhaglen Adeiladu
- Eich Cynllun Busnes

**Gwybodaeth arall i gefnogi eich cais fel:**

- Adroddiad(au) tendr
- Dyfynbrisiau gan gyflenwyr / contractwyr
- CVs tîm y prosiect, oni bai eu bod wedi'u cyflwyno o'r blaen
- Swydd-ddisgrifiad Rheolwr Prosiect Annibynnol
- Strategaeth Codi Arian
- Tystiolaeth o gyllid partneriaeth a sicrhawyd hyd yma
- Llythyrau yn cadarnhau unrhyw gymorth mewn nwyddau
- Tystiolaeth o'r galw am eich prosiect
- Arolwg strwythurol
- Arolwg asbestos
- Dogfennau caniatâd cynllunio
- Caniatâd Adeilad Rhestredig
- Caniatâd y landlord i'ch prosiect fynd yn ei flaen

## 23. Datganiad

**Darllenwch y datganiad yn ofalus.**

Yn yr adran hon o'r ffurflen gais rydym yn gofyn i chi ddarllen gwybodaeth bwysig am **ein cyfrifoldebau** o ran Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth.

Mae'n bwysig eich bod yn deall sut y bydd y wybodaeth y byddwch yn ei chyflwyno yn cael ei defnyddio a'i storio gennym. Mae angen i chi wybod beth i'w wneud os byddwch yn credu bod unrhyw ran o'ch gwybodaeth yn fasnachol sensitif neu'n gyfrinachol.

**Yna rydym yn gofyn i chi gadarnhau sawl gosodiad fel rhan o'r datganiad.** Drwy roi tic yn y blwch, byddwch yn llofnodi'r ffurflen gais yn electronig ar ran eich sefydliad.

## Beth i'w wneud os na allwch dderbyn arian gan y Loteri Genedlaethol

Os na allwch dderbyn arian y Loteri am ryw reswm, lanlwythwch lythyr gyda'ch cais ar-lein yn egluro pam. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn ceisio ariannu eich prosiect drwy arian o ffynonellau eraill.

## Ymwadiad

Rydym wedi ceisio sicrhau bod y wybodaeth a roddwn yn gywir. Nid ydym yn ysgwyddo unrhyw gyfrifoldeb, a thrwy hyn rydym yn gwadu unrhyw gyfrifoldeb i unrhyw un am unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan gamgymeriadau neu fylchau yn y wybodaeth a ddarparwn, p'un a yw'r camgymeriadau neu'r bylchau hyn wedi'u hachosi gan esgeulustod, damwain neu unrhyw reswm arall.

## Beth os oes gennyf gwestiwn?

Os hoffech drafod eich prosiect yn fwy manwl, cysylltwch â'n Tîm Cyfalaf.

Gallwch wneud hyn drwy e-bost, drwy ein gwefan neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol:

E-bost: cyfalaf@celf.cymru

Gwefan: Llenwch ffurflen ar ein gwefan

Twitter: Anfonwch neges atom ar Twitter @Celf_Cymru

Os oes gennych gwestiwn technegol, cysylltwch â'n Swyddogion Grantiau a Gwybodaeth drwy e-bost grantiau@celf.cymru neu ffoniwch 03301 242733 yna dewiswch 1, yna opsiwn 1.

## Ffyrdd eraill o gysylltu â ni

03301 242733

9.00am - 5.00pm ddydd Llun-Iau

9.00am - 4.30pm ddydd Gwener

Cysylltu â Ni

Cyngor Celfyddydau Cymru

@celf_Cymru

celfcymruarts